

Ysgol Gymraeg Ifor Hael

POLISI ar gyfer RHEOLI YMDDYGIAD

“Mae’n rhaid i ddisgyblion wybod a deall ffiniau ymddygiad derbyniol” Cylchlythyr 8/94 DfEE – Ymddygiad a Disgyblaeth Disgyblion

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chanllawiau a fydd yn galluogi’r holl staff i ddelio ag unrhyw broblemau disgyblion a fydd yn codi o fewn ein hysgol.

Fel ysgol, ein prif flaenoriaeth fel staff, rhieni a llywodraethwyr yw gweithio gyda’n gilydd i ddarparu:

- amgylchedd gadarnhaol, ddiogel a symbylol
- awyrgylch sy’n annog pawb i deimlo eu bod nhw ac eraill o werth beth bynnag yw eu hil, cenedl, oed, credo neu allu
- cyfleoedd ar gyfer llwyddiant yn hytrach na methiant
- amgylchedd sydd yn annog parch tuag at eraill, gonestrwydd a thegwch, goddefgarwch a thosturi, hunan barch a hunan ddisgyblaeth.

Mae ymddygiad da yn gwneud addysgu a dysgu effeithiol yn bosib. Mae ymddygiad gwael yn torri ar draws y prosesu hyn.

Nodau Polisi ar gyfer Rheoli Ymddygiad

Ein prif nod yw rhoi i ddisgyblion y sgiliau ar gyfer byw a dysgu ac i’w hymrwymo i mewn i gwricwlwm a strwythurwyd yn briodol ar gyfer eu hanghenion.

- darparu gwybodaeth i’r staff, plant a rhieni am ddulliau derbyniol o ymddygiad yn yr ysgol
- sicrhau agwedd gyson tuag at reoli ymddygiad drwy’r ysgol gyfan
- cynorthwyo plant i ddatblygu golwg glir o’r hyn sydd yn iawn a’r hyn nad yw’n iawn
- sicrhau bod pob plentyn yn teimlo’n ddiogel yn eu gwaith a’u chwarae, o fewn amgylchedd yr ysgol ac nad ydynt yn wynebu’r risg o fwlïo neu aflonyddiad rhywiol neu hiliol

Rheoli Ymddygiad yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael

- Mae perthynas dda rhwng staff, disgyblion a rhieni.
- Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o’u plant yn nhermau eu cyflawniad a’u hymddygiad
- Mae Cod Ymddygiad a gytunwyd gan blant, staff a rhieni a adolygir yn rheolaidd er mwyn sefydlu agwedd gyson.
- Pwyslais ar glod a gwobrwyo yn hytrach nag ataliadau a chosb.
- Bod plant wedi’u hymrwymo’n weithredol yn yr hyn y maent yn ei wneud, yn eu dysgu ac ym mywyd ehangach yr ysgol.
- Bod yr holl staff yn fodolau da o ymddygiad oedolion –maent yn cydweithredu a chefnogi ei gilydd gan drin y plant â pharch.

Nodau ar Gyfer Ymddygiad Derbyniol yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael

- Rydym yn gweithio i ddatblygu hunan-barch ac ymdeimlad o ymddiriedaeth drwy’r holl ysgol.
- Rydym yn gweithio i ddatblygu parch tuag at bobl eraill, teimladau eraill, diogelwch eraill, eiddo eraill (gan gynnwys adnoddau’r ysgol)
- Rydym yn gweithio i ddatblygu sgiliau gwranddo ein plant.

Ymddygiad Annerbyniol yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael

- Wnawn ni ddim derbyn unrhyw fath o fwllo
- Wnawn ni ddim derbyn mynd ag eiddo oddi wrth eraill neu o'r ysgol
- Wnawn ni ddim derbyn rhegi.
- Wnawn ni ddim derbyn diffyg cwrteisi.
- Wnawn ni ddim derbyn unrhyw fath o ymddygiad ymosodol
- Wnawn ni ddim derbyn unrhyw fath o ymddygiad aflonyddol o fewn y dosbarth.
- Wnawn ni ddim derbyn anharddu eiddo'r ysgol neu ollwng sbwriel.

Rôl yr Athrawon

"Mae gwersi a drefnir ac a gyflwynir yn dda yn gymorth i sicrhau safonau ymddygiad da."
Disgyblaeth mewn Ysgolion – Yr Arglwydd Elton.

- Sicrhau bod plant yn derbyn cwricwlwm eang a chytbwys gyda gweithgareddau wedi'u cyfatebu i anghenion disgyblion.
- Bod â disgwyliadau uchel o'r plant yn eu cyflawniadau a'u hymddygiad.
- Cynllunio gweithgareddau sydd yn annog datblygu hunan-dyb a gwerthfawrogi'i gilydd.
- Canlyn cod ymddygiad yr ysgol a gytunwyd yn gyson ac i ddelio ag aflonyddwch mewn ffordd gyson a thawel.
- Cysylltu â rheini i'w cadw'n hysbys o ymddygiad da plant yn ogystal â'u hymddygiad gwael .
- Ceisio cefnogaeth a chynghor gan y Pennaeth a chydweithwyr eraill, pan fo galw.
- Sicrhau bod plant yn deall yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt.
- Adnabod eu plant fel unigolion h.y. gwybod eu henwau, pwy yw eu ffrindiau, beth yw eu diddordebau ayyb.
- Cynnig model o'r safonau cwrteisi a ddisgwyliant gan blant.
- Pwysleisio'r cadarnhaol, gan gynnwys clod am ymddygiad da yn ogystal â gwaith da.
- Defnydd prin a chyson o gerydd. h.y. drwy fod yn gadarn nid ymosodol, targedu'r plentyn cywir, beirniadu'r ymddygiad nid y plentyn, bod yn deg a chyson gan osgoi coegni.
- Cyfaddef camsyniadau pan y'u gwneir a bod â'r gallu i ymddiheuro, pan fo angen.
- Osgoi labeli plant, grwpiau neu ddsbarthiadau.

Strategaethau ar gyfer Delio â Phroblemau Ymddygiad

- Mae strategaeth rheoli ymddygiad wedi'i seilio ar atgyfnerthiad cadarnhaol o ymddygiad priodol.
- Gosodir pwyslais ar adnabod a gwobrwyo modelau rôl da. Gwneir sylwadau rheolaidd ar ymddygiad derbyniol, yn y dosbarth, o gwmpas yr ysgol, wrth gydaddoli ayyb.
- Anogir plant hŷn i chwarae gyda ac i gynorthwyo plant llai o gwmpas yr ysgol, yn ystod egwyl a'r awr ginio.
- Rydym byth a beunydd yn pwysleisio rhinweddau consyrn tuag at eraill, hunan ddisgyblaeth, hunan barch, gonestrwydd a thegwch. Atgyfnerthir hyn drwy themâu cydaddoli, drwy addysgu ar draws y cwricwlwm a thrwy gyflwyniad cyson o fodelu rôl gan oedolion yn yr ysgol.

Os bydd yr ymddygiad annerbyniol yn parhau

- Dod â'r rhieni i mewn yn ystod y cyfnod cynnar – llythyron adref, nodyn yn y Dyddiadur Cartref /Ysgol.
- Dod â'r Pennaeth, aelodau eraill o'r staff neu'r CAAA i mewn.
- Gosod y plentyn ar y Gofrestr AAA a chanlyn y Cod Ymarfer os oes galw
- Gofyn am gyngor gan yr Adran Cefnogi Ymddygiad neu'r Athro/Athrawes Cefnogi Ymddygiad.
- Cadw llyfr adroddiadau ar ymddygiad y plentyn (cadarnhaol a negyddol) yn Log Ymddygiad yr Ysgol.

- Gosod targedau gyda'r plentyn, gan o bosib ddefnyddio siartiau cymhelliad a chadw llyfr adroddiadau ar gyfer adborth.

Rheolau ar gyfer Cyfnod Sylfaen

- Cytunir ar reolau gan yr holl staff ac mae'r plant yn ymwybodol ohonynt.
- Caiff y rheini wybod am y cod ymddygiad a gytunwyd.
- Llunnir y nifer lleiaf posib o reolau.
- Mae rheolau yn gyson drwy'r holl ysgol.
- Trafodir y rheolau yn rheolaidd gyda'r plant a chânt eu hatgyfnerthu gyda nhw .

Gellir dod o hyd i'r rheolau yn yr Atodiadau.

Gwobrwyo Effeithiol

Credwn fod plant yn dysgu'n well mewn awyrgylch o anogaeth gadarnhaol ac mewn un sydd yn datblygu hunan dyb. Dylid rhoi gwobrau yn rheolaidd ar gyfer ymddwyn a gweithio'n briodol a gellid cynnwys,

- clod - yn syth ar ôl yr ymddygiad da, yn gyhoeddus ac yn breifat, rhoddir rhesymau dros glod
- clod pan gedwir at y rheolau
- agor a chau'r diwrnod â chlod - mae'r staff yn gynnes a chroesawgar
- ymrwymiad rheini.
- clod ar lafar
- gwenu, iaith corff cadarnhaol
- atborth cadarnhaol i waith ac ymddygiad
- sticeri wynebâu'n gwenu ayyb
- cardiau gwobrwyo cronus / systemau canmoliaeth / gwobrau dosbarth
- annog plant i roi clod i'w gilydd
- gwobrwyo mewn gwasanaethau

Canlyniadau

Os yw plant yn dewis ymddwyn yn amhriodol bydd y canlyniadau yn cael eu cymhwyso. Amlinellir y rhain yn y Canllawiau Disgyblaeth Pendant a geir yn yr Atodiad. Dylid pob amser feirniadu'r ymddygiad ac nid y plentyn gan adael y plentyn â disgwyliad o ymddygiad da.

Ymrwymo'r Plant

- Credwn y dylid ymrwymo'r plant yn rheolaeth polisi ymddygiad yr ysgol cymaint ag y gellir.
- Maent yn ymwybodol o egwyddorion a rheolau'r ysgol.
- Maent yn ymwybodol o'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried yn ymddygiad derbyniol ac yn ymddygiad annerbyniol
- Maent, mor belled â phosib, yn rhan o drafodaethau am eu patrymau ymddygiad.
- Cânt eu hannog i adlewyrchu ar eu hymddygiad a'i effaith ar eraill yn yr ysgol
- Gwrendir ar safbwynt plant a chaiff ei werthfawrogi.
- Pan yn briodol, mae plant yn gosod targedau ar gyfer ymddygiad yn yr un ffordd ag y maent yn gwneud ar gyfer eu cyflawniadau academaidd.
- Fel arfer gwahoddir plant i fynychu nosweithiau rhieni.
- Anogir plant hŷn i weithio gyda ac i helpu plant ieuengach.
- Rhoddir cyfrifoldebau i blant o fewn y dosbarth a'r ysgol.

Ymrwymo Rhieni

Yr Ysgol

- Yn creu amgylchedd lle mae rhieni yn teimlo bod iddynt groeso ac maent y gysurus.
- Yn gwerthfawrogi cyfraniadau gan rieni tuag at fywyd yr ysgol.
- Yn cynnal sianeli cyfathrebu rheolaidd er mwyn cyfnewid syniadau a gwybodaeth.
- Yn annog ymrwymiad cadarnhaol tuag at blant yn dysgu.
- Rhoi gwybodaeth i rieni am bolisi ar reoli ymddygiad

Rhieni

- Cefnogi nodau'r ysgol ac arwyddo'r Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol.
- Sylweddoli'r rôl bwysig sydd ganddynt wrth feithrin ymddygiad da.
- Atgyfnerthu'n weithredol ymdrechion yr ysgol i reoli ymddygiad
- Sicrhau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, wedi'u gwisgo'n briodol, wedi cael digon o orffwys ac yn barod i ddysgu.
- Annog eu plant i siarad â'r athro neu'r athrawes neu'r goruchwyliwr awr ginio os buont yn rhan o ymddygiad ymosodol corfforol neu fygythiad o fwlïo.
- Egluro i'w plant bod bwrw rhywun neu daro'n ôl yn anghywir.
- Annog agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a'r staff sy'n gweithio yno.
- Bod yn gyson a thawel yn eu hagwedd wrth ddelio ag ymddygiad.
- Bod yn barod i gwrdd â staff i drafod cyflawniadau ac ymddygiad plant.

Ymrwymiad yr Holl Staff

Trafodwyd a chytunwyd y ddogfen hon gan holl staff Ysgol Bro Sannan. Credwn yn gryf, os yw polisi ymddygiad i weithio, mae'n rhaid i holl staff ac oedolion ysgol ei weithredu'n gyson.

Mae dogfen ar wahân yn ymwneud â Rheoli Ymddygiad yn ystod yr Awr Ginio a ddatblygwyd i egluro gweithdrefnau ar gyfer ymddygiad yn ystod yr awr ginio ac i gefnogi staff Ganol Dydd wrth ddelio ag ymddygiad amhriodol. Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon yn yr Atodiad.

Cod Ymarfer ar gyfer Bwlïo

Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, i'r Polisi Gwrth-Fwlïo

Rôl y Bwrdd Llywodraethol

Mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldeb i gefnogi'r Pennaeth a'r staff i gynnal lefel uchel o ymddygiad.

Er mai'r Pennaeth sydd yn gyfrifol am reoli ymddygiad yn yr ysgol o ddydd i ddydd, mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldeb cyffredinol i roi cyfeiriad i reolaeth yr ysgol a dylai'r Pennaeth gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau y gallant gynnig mewn perthynas ag unrhyw faterion penodol.

Cytunodd y Bwrdd Llywodraethol ar ein Polisi Rheoli Ymddygiad.

Bydd y Llywodraethwyr yn monitro'r nifer o blant a gaiff eu diarddel yn yr ysgol.

Diarddel

Cymerir penderfyniad i ddiarddel disgybl o'r ysgol hon ond,

- mewn ymateb i dorri'n ddifrifol bolisi disgyblaeth yr ysgol hon a
- petai caniatáu i'r disgybl barhau yn yr ysgol yn niweidiol i les addysgol y disgybl neu les eraill yn yr ysgol.

Mae ymddygiad annerbyniol a allai arwain i ddiarddel yn cynnwys.

- Ymladd
- Difrio ar lafar
- Trais corfforol, bwlïo
- Hiliaeth, Fandaliaeth, Dwyn
- Digwyddiadau'n gysylltiedig â chyffuriau
- Ymddygiad aflonyddgar parhaus

Cymer yr ysgol agwedd ddifrifol tuag at ddigwyddiadau o'r math hyn ac mewn achosion eithafol mae gan y Pennaeth y pŵer i ddiarddel am gyfnod penodol neu'n barhaol. Gellir cael manylion am weithdrefnau diarddel gan y Pennaeth.

Gofal a Rheolaeth

- Mae yna adegau lle mae atal disgyblion yn angenrheidiol.
- Gall athrawon neu eraill sydd ag awdurdod gan y Pennaeth i fod a rheolaeth dros ddisgyblion ddefnyddio grym rhesymol i atal disgyblion rhag:
 - cyflawni gweithred droseddol, os yw'r disgybl hwnnw wedi cyrraedd oed i fod yn gyfrifol am weithred droseddol neu beidio;
 - achosi anafiad i'w hunain neu arall;
 - achosi difrod i eiddo, gan gynnwys ei eiddo eu hun;
 - cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad a gaiff effaith negyddol ar drefn neu ddisgyblaeth yn yr ysgol neu, ymhlith disgyblion eraill, boed i'r ymddygiad hwn ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth yn ystod gwrs a gaiff ei dysgu neu mewn unrhyw fan arall;
- Mae awdurdod gan yr holl athrawon, cynorthwywyr dysgu a goruchwylwyr ganol dydd i ddefnyddio grym rhesymol i reoli neu atal disgyblion. Rhoddir hyfforddiant a diweddariad i'r hyfforddiant yn rheolaidd.

Gwerthusiad ac Adolygiad

Credwn fod y polisi hwn yn tanategu lles bywyd yr ysgol. Adolygir cynnydd y polisi hwn fel rhan o adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Bydd y Bwrdd Llywodraethol yn derbyn adroddiadau pob tymor ar fwlïo, digwyddiadau hiliol a diarddel gan ystyried goblygiadau'r rhain. Caiff y polisi ei adolygu pob yn ail flwyddyn.

ATODIAD 1 – CANLLAWIAU DISGYBLAETH BENDANT

“Rhoi stamp awdurdod, mynnu/ cydnabod/ arddel hawliau, bod yn bendant, gwthio’ch hun, taeru, haeru, mynnu, dal, datgan” yw’r ffordd mae Geiriadur yr Academi yn diffinio’r gair “assert” sef bod yn bendant.

Seilir disgyblaeth bendant ar:

Y gred bod:

- Gan athrawon yr hawl a’r cyfrifoldeb i sefydlu rheolau a chyfarwyddiadau sydd yn diffinio’n glir derfynau ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.
- Mae gan athrawon yr hawl a’r cyfrifoldeb i ddisgwyl bod myfyrwyr yn dilyn rheolau yn gyson.
- Mae gan athrawon yr hawl a’r cyfrifoldeb i ofyn i rieni gynorthwyo.

Mae gan blant yr hawl i:

- Athrawon cadarn a chyson a rydd anogaeth gadarnhaol i’w symbylu i ymddwyn ac i ddarparu amgylchedd diogel a hapus.
- Wybod pa ymddygiad sydd ei angen arnynt i lwyddo yn yr ystafell ddosbarth.
- I’r dull o ymateb cadarnhaol sydd yn hyderus, cyson ac sydd yn gwneud disgwyliadau’n glir i ddisgyblion. Mae gweithredodd i gefnogi geiriau.
- Ddisgyblaeth bendant sydd yn darparu cynllun disgyblaeth fel eu bod yn gwybod pa derfynau sydd i ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.
- Ymateb gan athrawon pendant sydd yn effeithio ar hunan dyb a llwyddiant disgyblion yn yr ysgol. Mae’n rhagweithiol ac nid yn adwaith sydd yn gostwng hunan dyb drwy fod yn elyniaethus ac awdurdodaidd.

Mae i Gynllun Disgyblaeth Bendant 3 rhan:

RHEOLAU – sydd yn rhaid i ddisgyblion eu dilyn ar bob adeg.

CYDNABYDDIAETH GADARNHAOL – y mae’r disgyblion yn ei dderbyn am ddilyn y rheolau

CANLYNIADAU sydd yn deillio os na lynir at y rheolau

Pwysleisir cydnabyddiaeth gadarnhaol fel yr arf mwyaf pwerus ar gyfer annog ymddygiad cadarnhaol ac o godi hunan-dyb. Rhaid i REOLAU for yn briodol os ydynt i’w gweithredu gydol y dydd. Mae ymrwymo plant wrth y rheolau hyn yn rhoi iddynt y berchnogaeth a’r symbyliad i gefnogi’r rheolau. Mae’n rhaid eu hatgoffa o’r rhain a’u trafod yn rheolaidd.

Mae CYDNABYDDIAETH GADARNHAOL yn HANFODOL. Mae cydnabyddiaeth gadarnhaol yn symbylu myfyrwyr i ddewis ymddygiad briodol gan greu awyrgylch gadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth. Mae cydnabyddiaeth gadarnhaol yn sylw diffuant ac ystyrion am ymddwyn yn unol â disgwyliadau. Dyma ran fwyaf gweithredol y cynllun ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth gan ei bod yn bwysig cydnabod a gwobrwo ymddygiad cyfrifol. Clod yw blaenoriaeth fwyaf staff. Dylid anelu i roi clod i bob plentyn am rywbeth pob dydd. Dylid anelu at roi tri ymateb cadarnhaol cyn rhoi un negyddol.

CANLYNIADAU. Mae disgyblaeth bendant yn seiliedig ar y gred bod angen strwythur a therfynau ar blant. Rydym yn dangos iddynt ein bod â chymaint o ofal drostynt i roi gwybod iddynt a yw eu hymddygiad yn annerbyniol a bod ymddygiad annerbyniol yn arwain at ganlyniadau go iawn.

Mae disgyblaeth bendant yn darparu strwythur o ganlyniadau effeithiol drwy bennu o flaenllaw yr hyn a fydd yn digwydd os bydd plentyn yn camymddwyn. Y canlyniadau hyn yw'r dewis y mae plant yn ei wneud drwy ddewis peidio â chanlyn y rheolau. Nid oes rhaid i ganlyniadau fod yn llym i fod yn effeithiol ac ni ddylent fyth achosi embaras i blentyn neu wneud yn fach ohono. Nid cosb yw'r canlyniadau ond gweithredoedd y mae plentyn yn gwybod bydd yn gymwys os bydd yn dewis torri rheol.

Cytundebau Ysgol/Dosbarth

1. Rydyn ni'n codi llaw i siarad.

Eistedd yn llonydd heb weiddi allan

2. Rydyn ni'n siarad Cymraeg yn yr ysgol.

3. Rydyn ni'n gwrando ac yn talu sylw i'r sawl sy'n siarad.

Clustiau'n gwrando

Llygaid yn edrych

Gwefusau yn llonydd

Traed a dwylo yn llonydd

Meddwl ar ddihun

Dilyn cyfarwyddiadau y tro cyntaf.

4. Rydyn ni'n cadw ein dwylo a'n traed i ni ein hun.

Ni dderbynnir bwrw eraill na bwrw yn ol.

Rydyn ni'n annog y disgyblion i ddilyn ' Y Crwban'. - (Gweler yr atodiad 4)

5. Rydyn ni'n parchu'r pobl ac eiddo ein gilydd .

Gwrando a derbyn barn eraill.

Defnyddio lefel a thon llais priodol.- (Gweler yr atodiad 5)

- Arddangosir y rheolau ynghyd a symbol addas ym mhob dosbarth.(*Gweler atodiad am y symbolau3*)
- Esbonir a chyfeirir at y rheolau yn gyson.
- Camolir yn gyson a symudai'r disgyblion i fynny'r siart dosbarth.
- Symudai disgybl i lawr y siart os yw'n torri'r rheolau/cytundebau yn gyson ond nodir hefyd ein bod ni fel ysgol a staff yn annog ymddygiad bositif lle bo'n bosib.

Gwobrau

- Clod gan Athro/Athrawes dosbarth. – Ar gyhoedd
- Clod gan Athro/Athrawes dosbarth arall- Ar gyhoedd
- Clod gan y Brif Athrawes- Gwobr o ddewis y disgybl a tistysgrif a galwad adref.

Canlyniadau

- Amser meddwl mewn lle penodol yn y dosbath.
- Esboniad i Athro/Athrawes arall ac amser meddwl yn y dosbarth yna.
- Esboniad i'r Brif Athrawes a galwad a slip adref.

(Yn ystod y cyfnodau meddwl mae'r aelod o staff yn cymrud rol rhwyddhauwr)

Fyddwn yn tracio'r disgyblion sydd yn ennill tystysgrifau a slipiau adref. Fydd hwn o gymorth wrth i ni werthuso llwyddiant y system ac wrth dargeddi'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Cymerir camau ychwanegol i ddelio ag unigolion sydd yn torri'r cytundebau ysgol/dosbarth yn rheolaidd.

Sylweddolwn bod rheoli teimladau yn rhan anatod a rheoli ymddygiad felly rydym fel ysgol yn gweithredu cynllun CAMAU i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol. (Gweler atodiad 8)

ATODIAD 2 – CANLLAWIAU AR GYFER DELIO â DIGWYDDIADAU o FWLÏO

Adrodd ar Gonsŷrn Dechreuol

Athro/athrawes ddosbarth i ddelio â hyn. Trafodaeth gyda'r athro/athrawes flaenorol. Logio os yn briodol. Siarad â'r plant.

Adroddiad ar Ddigwyddiad

Ei ysgrifennu yn Log bwli'o'r ysgol. Rhoi gwybod i'r Pennaeth neu'r dirprwy. Yr athro/athrawes (d)dosbarth, y Dirprwy a'r Pennaeth i siarad â'r bwli a'r dioddefwr. Rhoi gwybod i'r rhieni os oes galw am hynny.

Digwyddiad y cafwyd adroddiad amdano

Fel o'r blaen ond y Dirprwy a'r Pennaeth i gysylltu â rhieni'r bwli a'r dioddefwr. Gofyn i rhieni'r bwli i drafod ymddygiad eu plentyn.

Digwyddiad pellach

Cyfweliad yn yr ysgol rhwng yr athro/athrawes (d)dosbarth a'r Pennaeth gyda rhieni'r plant fel y bo'n briodol. Cefnogaeth ar gyfer y dioddefwr. Trafod cosb gyda'r bwli a'r rhieni a'i weithredu.

Os yw'r bwli'o'n parhau

Rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr

Diarddel yn ystod yr awr ginio.

Diarddel am gyfnod penodol yn unol â chanllawiau'r AALI